# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, K.P. Mahoney, S.D. Perkes, J. Protheroe a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd W. Gilligan, G. John and E. Williams.

890 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

891 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines (Is-Gadeirydd).

892 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

893 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

894 RHAGLEN SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU DIWEDDARIAD A CHANLYNIAD YR AROLWG ANGHENION DYSGU (PGD) - .

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn cynghori bod Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau 2022 bellach yng Ngham 4 a oedd yn parhau tan ddiwedd y tymor trefol presennol (Mai 2027) ac yn cynnwys darparu cyrsiau gloywi ac unrhyw sesiynau pwnc datblygu newydd fel y



*** N.B. Mae’r arolwg a anfonwyd i Aelodau yn Ionawr 2023 wedi'i atodi i ddiwedd y cofnodion

nodwyd gan Aelodau. Nododd Atodiad A i'r adroddiad ganlyniadau Arolwg Hunanasesu Anghenion Dysgu 2023 (LNASAS) a oedd wedi bod yn arolwg electronig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w anfon at yr holl Aelodau Etholedig rhwng Ionawr - Mawrth '23. Hyd yn hyn roedd 32 ymateb wedi'u derbyn oedd yn cyfateb i gyfradd ymateb o 59%. Nid oedd yr arolwg wedi cael ei ystyried yn orfodol i'w gwblhau.

Cyfeiriodd Atodiad B i'r adroddiad at ganlyniadau Arolwg Adborth Microsoft Forms 2022 (MFFS) a oedd wedi bod yn arolwg electronig bach a anfonwyd at yr holl aelodau oedd yn bresennol yn Sesiynau Datblygu Aelodau a oedd wedi'u cynnig fel rhan o'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau yn syth ar ôl i'r sesiynau gael eu cynnal (dros y 7 mis cyntaf ar ôl Etholiad LlL mis Mai '22). Nododd yr adroddiad y cyfraddau ymateb ar gyfer yr MFFS yn ogystal â dadansoddiad o'r adborth a gafwyd ar gyfer pob pwnc datblygu. Cafwyd cyfanswm o 221 o ymatebion gan arwain at gyfradd ymateb cyfartalog o 15%. Unwaith eto, nid oedd yr arolwg hwn wedi cael ei ystyried yn orfodol i'w gwblhau a nododd Atodiad C gofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 25 Gorffennaf 2022 a roddodd sylwadau Aelodau bryd hynny ar y rhaglen sefydlu.

Tynnodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sylw'r Pwyllgor at y canfyddiadau allweddol a ddadansoddwyd ac fel y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2.8 a 2.16 o'r adroddiad.

Wrth gyfeirio at ganlyniadau arolwg adborth yr LNASAS, dywedodd y Cadeirydd a rhai Aelodau y gallai'r ymatebion gael eu camddehongli yn eu barn nhw, heb ystyried y cwestiynau yn yr arolwg ar yr un pryd. Fel esboniad, nodwyd bod y cwestiynau'n ymwneud â chymorth yr oedd Aelodau o'r farn y gallent fod ei angen, gyda dim ymateb yn golygu nad oedd angen cymorth pellach yn y meysydd y cyfeiriwyd atynt, a'r ymatebion ie yn argymell pa gymorth pellach yr hoffent ei gael a beth fyddai'r dull dewisol o ddysgu i wneud hynny.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd hefyd at y ffaith nad oedd yr arolwg a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd wedi bod yr union un arolwg â'r hyn a anfonwyd ymlaen ym mis Ionawr 2023 i Aelodau Etholedig i'w gwblhau. Cytunwyd wedyn bod yr arolwg a e-bostiwyd ym mis Ionawr 2023 *** yn cael ei atodi i'r cofnodion am gyflawnder pan gaiff ei uwchlwytho i wefan y Cyngor, ac y dylid cyflwyno unrhyw arolwg mewn modd cyson ar draws fformatau, o'r drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor am gytundeb, i'r hyn a ddefnyddir ym meddalwedd yr arolwg ac mewn unrhyw adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg, yn y dyfodol. Awgrymodd y Cynghorydd Protheroe hefyd fod y cyfeiriad at 'anghenion cymorth' yn cael ei gynnwys yng nghanlyniadau'r arolwg i ddangos a oedd Aelodau'n gofyn am gymorth ychwanegol, ac i leihau amwysedd wrth gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad.

Holodd y Cynghorydd Perkes a fyddai modd defnyddio e-ddysgu i hwyluso cymorth i Aelodau wrth ystyried Blaenraglenni Gwaith fel y gallai'r Aelodau gyfeirio'n ôl ato yn ôl yr angen. Cytunodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd i ymchwilio i'r awgrym gan hefyd atgoffa Aelodau o gyfleuster



*** N.B. Mae'r arolwg a anfonwyd i Aelodau yn Ionawr 2023 wedi'i atodi i ddiwedd y cofnodion

MemberNet y Cyngor a oedd yn rhoi cymorth tebyg wrth iddo storio recordiadau o'r sesiynau hyfforddi a'r cyflwyniadau a ddarparwyd yn y Rhaglen Sefydlu Aelodau, yr oedd aelodau hefyd yn gallu eu gweld yn ôl yr angen.

O ystyried y gyfradd ymateb i'r arolygon nodwyd bod hyn wedi bod yn isel ar gyfer arolwg y rhaglen sefydlu aelodau er i'r Cadeirydd gydnabod bod cryn dipyn o wybodaeth y gallai'r Gwasanaethau Democrataidd weithio gyda nhw o ystyried y sylwadau a wnaed.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Hanks ynglŷn â'r broses Adolygu Datblygiad Personol (PDR) y cyfeirir ato ym mharagraff 2.9 o'r adroddiad, cynghorodd y Cadeirydd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud trefniadau i adolygiadau gael eu cynnal ym mis Mehefin / Gorffennaf gydag Aelodau oedd yn derbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig a chydag aelodau'r meinciau cefn.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD sylwadau'r Pwyllgor fel y trafodwyd uchod, yn cael eu coladu a'u hystyried gan Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wrth symud ymlaen.

(2) BOD fformatio unrhyw arolygon yn y dyfodol yn gyson wrth gael eu darparu ar ffurf papur drafft, mewn meddalwedd arolygu ac wrth gyhoeddi unrhyw ganlyniadau.

(3) BOD yr adborth a gafwyd gan Aelodau, fel y nodir yn Atodiadau A, B ac C i'r adroddiad, yn cael ei nodi.

(4) BOD canfyddiadau'r Ymarfer Hunanasesu Anghenion Dysgu a awgrymir, ac arolygon adborth y Rhaglen Sefydlu Aelodau fel y nodir ym mharagraff 2.8 a 2.16 o'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.

(5) BOD drafft o Atodlen Rhaglen Datblygu Aelodau o hydref 2023 ymlaen yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor, cyn ei rhannu gyda'r holl Aelodau Etholedig (ac Aelodau Cyfetholedig lle bo'n briodol), unwaith y byddai manylion y rhaglen ar gael.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu hystyried a'u cynnwys gan swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd mewn unrhyw arolygon yn y dyfodol.

(2) I gynorthwyo dealltwriaeth gyffredin a dehongli canfyddiadau.



*** N.B. Mae'r arolwg a anfonwyd i Aelodau yn Ionawr 2023 wedi'i atodi i ddiwedd y cofnodion

(3) I roi sylw i'r adborth a gafwyd hyd yma gan Aelodau Etholedig a Chyfetholedig drwy sawl llwybr.

(4) I nodi’r canfyddiadau yn yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) I'r Pwyllgorau eu hystyried a rhoi cyfle parhaus i’r holl Aelodau Etholedig (ac Aelodau Cyfetholedig lle bo hynny'n briodol) gymryd rhan yng Ngham 4 o Raglen Datblygu Aelodau'r Cyngor yn unol â phynciau datblygu a nodwyd fel sy’n ofynnol gan Aelodau Etholedig a Chyfetholedig eu hunain.



*** N.B. Mae’r arolwg a anfonwyd i Aelodau yn Ionawr 2023 wedi'i atodi i ddiwedd y cofnodion